TAG UG/Uwch

1383/01

# CYMRAEG AIL IAITH
# *(WELSH SECOND LANGUAGE)*
# CA3

## DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

A.M. DYDD IAU, 12 Ionawr 2012

*A.M. THURSDAY, 12 January 2012*

2 Awr

*2 Hours*

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 8 tudalen.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*8 page answer book.*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Dylech dreulio **AWR** ar bob adran.

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Use black inc or black ball-point pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*You should spend **1 HOUR** on each section.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*

*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

VP*(W12-1383-01)

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]

(i) ar ei phen ei hun

(ii) mae'n dda gen i

(iii) bob amser

(iv) wrth ei fodd

(v) hen bryd

(vi) yn awr ac yn y man

(vii) lladd amser

(viii) mae hiraeth arno fe

(ix) tŷ

(x) ti

**2.** Ail-ysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi'u tanlinellu. [20]

*(a)* <u>Bydd</u> nhw eisiau mynd i'r sinema.

*(b)* Pan <u>darllenais</u> i'r llyfr roeddwn i'n siomedig.

*(c)* Dydw i ddim yn credu <u>bod</u> nhw wedi mynd ar eu gwyliau.

*(ch)* <u>Doedd</u> nhw ddim yn gallu ateb y cwestiwn.

*(d)* Gofynnwch <u>i</u> hi am fenthyg y llyfr.

*(dd)* Derbyniodd yr hen wraig <u>llawer</u> o gardiau ar ei phen-blwydd.

*(e)* Dwy <u>flwyddyn</u> yn ôl dechreuodd y dyn swydd newydd.

*(f)* <u>Dylai fi</u> ddysgu'r gwaith ar gyfer yr arholiad.

*(ff)* Dyma'r llyfr y dylech chi <u>darllen</u>.

*(g)* Darllenais i <u>am</u> hi yn y papur.

**3.** Gan ysgrifennu'n bersonol, **disgrifiwch sut rydych chi'n ymlacio pan dydych chi ddim yn yr ysgol/coleg**.
*Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.* [20]

Gallwch sôn am:

- eich diddordebau
- y gweithgareddau rydych chi'n ei wneud
- eich dymuniad i fod ar eich pen eich hun neu gyda chwmni.

Cofiwch ddisgrifio'r profiad yn ofalus. Rhoddir marciau am ysgrifennu'n gywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau.

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**4.** Darllenwch yn ofalus y penillion canlynol o'r gerdd *Mae gen i freuddwyd* gan Gwyn Thomas ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Mae gen i freuddwyd am y wlad
Lle bydd diwedd angau,
Lle na fydd cynnen, trais, na brad,
Lle na fydd ofn cadwynau.

Mae gen i freuddwyd am y wlad
Lle bydd cariad yno,
Lle na fydd dicter mwy, na llid,
Lle na fydd neb yn wylo.

*(a)* Gosodwch y penillion **uchod** yn eu cyd-destun. [20]

Disgrifiwch:

- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **cyn** y penillion hyn
- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **ar ôl** y penillion hyn
- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **yn** y penillion hyn.

*(b)* Nodwch arddull y penillion **uchod**. Rhowch eich barn am effaith y technegau hyn.

Dylech nodi: [20]

- mesur y gerdd
- hyd y llinellau
- yr odl
- gwahanol dechnegau megis
  - delweddau
  - cyflythreniad
  - iaith

*(c)* Rhowch eich ymateb personol i'r gerdd hon a'i phwnc. **Peidiwch ag ailadrodd y cynnwys na thrafod yr arddull**. [20]